OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2012 Rhif 948 (Cy. 125)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) (Diwygio) 2012

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) 2011 (O.S. 2011/1826 (Cy.198)) ("Rheoliadau 2011").

Yn benodol mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio adran 2(1) yn y testun Cymraeg o Reoliadau 2011 i fewnosod diffiniad o "darpariaeth moch Ewropeaidd" ("*European pig provision*").

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 948 (Cy. 125)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) (Diwygio) 2012

*Gwnaed* *26 Mawrth 2012*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *28 Mawrth 2012*

*Yn dod i rym* *18 Ebrill 2012*

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr UE, ac maent yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno.

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) (Diwygio) 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 18 Ebrill 2012.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2011" ("*the 2011 Regulations*") yw Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) 2011(**3**).

**Diwygio rheoliad 2(1) o Reoliadau 2011**

**3.** Yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2011, yn y testun Cymraeg, ar ôl y diffiniad o "darpariaeth eidion

(**1**) Yn rhinwedd erthygl 3 o Orchmyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 5) 2010, O.S. 2010/2690.

(**2**) 1972 p. 68; diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51).

(**3**) O.S. 2011/1826 (Cy. 198).

Ewropeaidd" ("*European beef provision*"), mewnosoder—

"ystyr "darpariaeth moch Ewropeaidd" ("*European pig provision*") yw darpariaeth a bennir yng ngholofn 2 o Atodlen 2, y disgrifir ei chynnwys yng ngholofn 3 o'r Atodlen honno;".

*Alun Davies*

Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, o dan awdurdod y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, un o Weinidogion Cymru

26 Mawrth 2012